# Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Date of publication: Dydd Mawrth, 28 Mai 2019

1 **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Adfywio a Thai: 2019/17 - Clwb Bowlio Awyr Agored Ty Du gynt**

**Gofynnodd y Cynghorydd C Evans:**

Byddwch yn ymwybodol bod Clwb Bowls Awyr Agored Tŷ-DU wedi’i gau'n ddiweddar a dywedwyd mai diffyg cefnogaeth gan eich gweinyddiaeth oedd y brif reswm dros ei gau. Dywedir wrthyf fod y clwb, ar ôl hanes hir, wedi rhoi’r allweddi yn ôl i'r Cyngor.

Allech chi ddweud wrthyf beth rydych yn bwriadu ei wneud gyda’r eiddo? Ydy’r sôn yn wir bod eich gweinyddiaeth yn bwriadu gwerthu’r tir i’r ddatblygu? Fyddech chi’n ystyried gosod yr adeilad a'r tir i grŵp cymunedol arall a allai eu defnyddio er budd cymdogion yn Nhŷ-du? Fyddech chi ystyried rhoi’r adeilad a'r tir i'r Cyngor Cymuned yn Nhŷ-du?

**Ymatebodd y Cynghorydd Harvey:**

Nid oes cynlluniau i werthu'r tir, er bod trafodaethau ar y gweill ynghylch prydles bosibl ar gyfer clwb chwaraeon lleol.